***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 3. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 3

(a gyflwynir gan adran 41(8))

## YR HYN SYDD I'W GYNNWYS AR ANFONEB DIRLENWI

1 Rhaid i anfoneb dirlenwi gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) rhif adnabod;
(b) dyddiad dyroddi'r anfoneb;
(c) enw a chyfeiriad y person sy'n dyroddi'r anfoneb;
(d) y rhif cofrestru a aseinir i'r person hwnnw gan ACC;
(e) enw a chyfeiriad y person y dyroddir yr anfoneb iddo;
(f) dyddiad gwneud y gwarediad trethadwy;
(g) disgrifiad o'r deunydd yn y gwarediad trethadwy;
(h) cyfradd y dreth sydd i'w chodi ar y deunydd yn y gwarediad trethadwy;
(i) pwysau trethadwy'r deunydd yn y gwarediad trethadwy;
(j) unrhyw ddisgownt a gymhwysir o dan adran 19(3) mewn cysylltiad â dŵr sydd yn y deunydd;
(k) unrhyw ryddhad a hawlir mewn perthynas â'r gwarediad trethadwy;
(l) swm y dreth sydd i'w godi ar y gwarediad trethadwy;
(m) cyfanswm y gydnabyddiaeth sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r anfoneb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

2 Pan ddyroddir anfoneb dirlenwi mewn cysylltiad â mwy nag un gwarediad trethadwy, rhaid iddi ddangos, mewn cysylltiad â phob gwarediad trethadwy, yr wybodaeth a bennir ym mharagraffau 1(f) i (l).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 3 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I4** Atod. 3 para. 2 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 3.